5.9 Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 9 Awst 2019 gan ddweud bod ei chynllun cyflawni statudol cyntaf ar gyfer datgarboneiddio yng Nghymru 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)' wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2019 a bod datganiad Ebrill 2019 yn nodi uchelgais, yr oedd yn bwriadu gweithio tuag ato gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut y gellid ei gyflawni. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi casglu felly fod hyn yn dangos na fu unrhyw newid ym mholisi Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi papur Mawrth 2019, ac na fu unrhyw ddiwygiadau i'r NPSs ar ynni. Mae o'r farn felly, gan fod yr ExA wedi ystyried yr holl bolisïau Cymreig perthnasol yn ystod yr Archwiliad, ac o gofio na fu unrhyw newidiadau dilynol mewn deddfwriaeth na pholisi, er gwaethaf y diwygiad i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, a bod yr NPSs ar ynni yn dal i ffurfio'r sail ar gyfer penderfyniadau o dan Ddeddf Cynllunio 2008, na fyddai cymeradwyo'r Cais ei hun yn anghydnaws â datganiad Llywodraeth Cymru ar 29 Ebrill 2019 na'r diwygiad i'r Ddeddf Newid Hinsawdd.

6. Materion Eraill

Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol

6.1 Mae'r ExA yn nodi [ER 4.12.6] bod EN-1 yn nodi hyn: "virtually all nationally significant energy infrastructure projects will have effects on the landscape". Mae'n rhaid i ddynodiadau tirwedd lleol (a nodir mewn LDPs) gael eu cymryd i ystyriaeth a dylai niwed gael ei liniaru. Wrth ystyried y safleoedd hyn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried a yw'r Datblygiad yn rhoi tystiolaeth o ddylunio da. Nid oes gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sy'n darparu cyngor statudol i'r Llywodraeth ar faterion tirwedd, unrhyw bryderon sydd heb eu datrys o ran y fethodoleg a'r asesiad ynglŷn â'r effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol.

6.2 Daeth Cyngor Abertawe yn ei LIR i'r casgliad y byddai'r Datblygiad yn cael effaith arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd leol yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu, ond roedd yn sylweddoli bod y Datblygiad wedi'i leoli cyn belled ag y bo'n ymarferol er mwyn lleihau ei effaith (yn y safle) a bod yna seilwaith ynni arall yn yr amgylchoedd. Cododd tri o'r IPs

faterion ynglŷn ag effaith weledol a'i effaith ar eu heiddo nhw, ond ni wnaeth yr un ohonynt gyflwyniadau pellach i'r Archwiliad yn dilyn eu RRs. Casgliad yr ExA ar effeithiau gweledol a dylunio'r dirwedd yw y byddai'r Datblygiad yn cael effaith weledol arwyddocaol yn agos i'r safle ond y byddai'r effaith honno o fewn lleoliad diwydiannol presennol a datblygol ac nad oedd yr effaith ychwanegol o ddatblygiadau eraill yn arwyddocaol. O ran effeithiau cronol ar y dirwedd drwy ddod â'r Datblygiad i'r lleoliad hwn sydd wedi'i ddatblygu eisoes, nid yw'n cael ei ystyried yn arwyddocaol. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweld unrhyw reswm dros anghytuno â chasgliadau'r ExA yn hyn o beth.

Ansawdd Aer

6.3 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, sef y rheoleiddiwr perthnasol, yn fodlon ar berfformiad arfaethedig y Datblygiad o ran ansawdd aer ac allyriadau ac yn fodlon bod y Ceisydd wedi defnyddio'r broses asesu gywir. Nid yw'n gweld rheswm pam na ddylai'r Datblygiad gydymffurfio'n llawn â'r holl bolisiau a safonau perthnasol. Cododd nifer o IPs bryderon am ansawdd aer yn eu RRs. Er hynny, ni chafodd Tîm Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw ymateb i'w ymgynghoriad cyhoeddus 'Yn bwriadu caniatáu' ac fe roddodd Drwydded Amgylcheddol i'r Ceisydd ar 18 Ionawr 2019.

6.4 Mae'r Ceisydd wedi asesu potensial y Datblygiad o ran ansawdd aer amgylchynol, gan gynnwys effeithiau llygryddion: Ocsidau Nitrogen ("NOx") a Charbon Monocsid a gâi eu hallyrru o'r tyrbinau nwy drwy'r simnai wrth weithredu; ac NOx a deunydd gronynnol (PM10 a PM2.5) sy'n gysylltiedig â symudiadau cerbydau wrth adeiladu, gweithredu a datgomiynu'r Datblygiad. Nododd y Ceisydd na ragwelir unrhyw ormodedd perthnasol ac felly nid oes angen mesurau ansawdd aer yn ychwanegol at y rhai y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn. Mae'r ExA yn fodlon y bydd yr allyriadau arfaethedig yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Ansawdd Aer 2008. Mae hefyd yn fodlon bod gwytnwch rhag newid yn yr hinsawdd wedi'i gynnwys yn y Datblygiad ac y bydd yr NPSs perthnasol EN-1 ac EN-2, polisiau Llywodraeth Cymru ar rwymedigaethau newid hinsawdd a pholisiau'r LDP, sef ER1 ar newid hinsawdd ac RP3, yn cael eu bodloni. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweld unrhyw reswm dros anghytuno â'r farn hon.

Sŵn a Dirgrynu

6.5 Ni chodwyd unrhyw bryderon mewn egwyddor ynghylch sŵn a dirgryniad gan asiantaethau'r llywodraeth, yn benodol Cyfoeth Naturiol Cymru, na chan Gyngor Abertawe, ar y sail y byddai mesurau lliniaru sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft yn cael eu darparu ar gyfer

y sŵn a'r dirgryniad sy'n deillio o'r gweithgareddau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu sy'n deillio o'r Datblygiad. Daeth yr ExA i'r casgliad, o gofio'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ei fod o'r farn bod materion yn ymwneud â sŵn a dirgryniad wedi cael sylw digonol ac yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff 5.11 o EN-1, TAN 11 Llywodraeth Cymru a pholisi RP2 yn LDP Cyngor Abertawe. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweld unrhyw reswm dros anghytuno â'r farn hon.

Ansawdd ac adnoddau dŵr a pherygl llifogydd

6.6 Ni fynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd dŵr, ac ni wnaeth Cyngor Abertawe fynegi pryderon ychwaith yn ei LIR. Daeth Cyngor Abertawe i'r casgliad nad yw o'r farn bod y datblygiad yn codi unrhyw faterion sylweddol o safbwynt llifogydd neu ddraenio na ellir eu lliniaru a bernid felly fod y cynigion yn cydymffurfio â'r LDP sy'n dechrau dod i'r amlwg.

6.7 Cododd Dŵr Cymru [RR-023] bryderon penodol ynghylch effaith bosibl ar Gronfa Ddŵr Lliw Isaf, Gwaith Trin Dŵr Felindre, ansawdd ac adnoddau dŵr, a chywirdeb strwythurol asedau a chyfarpar Dŵr Cymru. Mae Dŵr Cymru a'r Ceisydd wedi datrys eu holl bryderon penodol am effaith bosibl y Datblygiad ar eu hasedau mewn Datganiad Tir Cyffredin a lofnodwyd cyn diwedd yr Archwiliad. Daeth yr ExA i'r casgliad bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael â'r gofynion yng Nghyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2010 a bod y materion ynglŷn ag ansawdd ac adnoddau dŵr (gan gynnwys newid hinsawdd) wedi cael sylw digonol ac yn bodloni gofynion EN-1 a TAN15 Llywodraeth Cymru. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn barn yr ExA.

Daeareg, Cyflwr y Tir a Hydroddaeareg

6.8 Mae'r Datblygiad wedi'i leoli mewn ardaloedd a ddynodwyd fel cronfeydd mwynau yn LDP Cyngor Abertawe ac mae bron y cyfan o'r tir a amgaeir gan derfynau'r Gorchymyn ar gyfer y Datblygiad mewn ardal o gronfeydd glo dynodedig, a'r unig eithriad yw'r ffordd fynediad bresennol o'r B4489. Gofynnodd Cyngor Abertawe am asesiad llawn o'r adnoddau mwynol posibl ac effaith y Datblygiad ar sterileiddio'r adnodd mwynol. Cadarnhaodd y Ceisydd y bydd yr adnodd mwynol yn aros yn gyfan ac y byddai ar gael i genedlaethau'r dyfodol y tu hwnt i oes y Datblygiad.

Er hynny, byddai adeiladu a gweithredu'r Datblygiad yn arwain at sterileiddio yn ystod yr oes weithredol. Mae'r ExA yn fodlon bod Gofyniad 15 yn y Gorchymyn yn ymdrin â phryderon Cyngor Abertawe ac yn cydymffurfio â pholisïau R12 ac R13 yn yr LDP. Mae hefyd yn

fodlon bod asesiad digonol o Ddaeareg, Cyflwr y Tir a Hydroddaeareg wedi'i wneud a'i fod yn bodloni gofynion adran 5.3 o EN-1. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r farn hon.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

6.9 Nid yw'r Datblygiad yn cynnwys unrhyw asedau hanesyddol er bod un heneb gofrestredig, un adeilad rhestredig a 26 o henebion heb eu cofrestru yn bresennol yn yr ardal astudio 1km, ac er bod 16 o henebion cofrestredig, 54 o adeiladau rhestredig (pob gradd), dwy Ardal Gadwraeth a thri Pharc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig yn bresennol yn yr ardal astudio 5km. Daeth Cyngor Abertawe i'r casgliad bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau HC1, HC2 a PS2 yn yr LDP, cyhyd ag y cynhwysir Gofyniad 13, Archaeoleg, yn y Gorchymyn ac yn ddarostyngedig i unrhyw sylwadau a gyflwynir yn uniongyrchol i'r ExA gan Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Cytunodd Cadw â chasgliadau'r Adroddiad rhagarweiniol ar yr Effaith Amgylcheddol o safbwynt effaith y Datblygiad ar yr asedau hanesyddol a nodwyd yn yr ardal astudio, ond ni wnaeth unrhyw gyflwyniad i'r Archwiliad.

Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio ag EN-1, ac nid yw EN-2 yn codi unrhyw faterion amgylchedd adeiledig hanesyddol sy'n benodol i safleoedd hylosgi nwy. Yn yr un modd nid yw EN-4 yn codi dim byd arbennig o ran aliniad y cysylltiad nwy. Mae'r ExA yn casglu nad oes fawr o botensial ar gyfer effeithiau gweddilliol ar gefndir asedau hanesyddol yn yr ardaloedd astudio a bod rhaglen o waith lliniaru archaeolegol cyn adeiladu wedi'i sicrhau drwy gyfrwng Gofyniad 13 yn y Gorchymyn. Does gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddim rheswm dro anghytuno â'r farn hon.

Effeithiau Economaidd a Chymdeithasol

6.10 Mae paragraff 3.2.1 o EN-1 yn nodi'r effeithiau cymdeithasol-economaidd cadarnhaol yn gyffredinol sy'n deillio o gynhyrchu trydan i ddiwallu anghenion ynni a nodwyd yn genedlaethol ar y lefel genedlaethol. Roedd Cyngor Abertawe o'r farn nad oedd cytundeb ar rychwant a pharamedrau asesiad y Ceisydd o effeithiau ar dwristiaeth a'u bod yn rhy gyfyngol [REP3-010]. Roedd y Ceisydd o'r farn na chaiff y Datblygiad unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar dderbynyddion twristiaeth a hamdden yn yr ardal yn ystod y gwaith adeiladu neu weithredu. Er hynny, gall effeithiau buddiol o ran cyflogaeth gael eu gwella drwy gysylltiadau â chanolfannau gwaith, colegau, rhaglenni cyflogadwyedd ac ymgysylltu â chwmnïau adeiladu lleol a chwmnïau eraill yn y gadwyn gyflenwi. Daeth yr ExA i'r casgliad bod y Ceisydd wedi

rhoi sylw digonol i effeithiau cymdeithasol-economaidd y cynnig ac wedi darparu digon o dystiolaeth i ategu ei haeriadau ar yr effeithiau. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion EN-1 a TAN23 Llywodraeth Cymru ac ni châi effeithiau niweidiol sylweddol yn gymdeithasol nac yn economaidd. Mae ganddo hefyd y potensial i ategu datblygiad yr economi yn yr ardal yn unol â pholisïau Cyngor Abertawe sy'n elfen gadarnhaol yng nghydbwysedd cyffredinol y Datblygiad. Does gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddim rheswm i anghytuno â'r farn hon.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

6.11 Does gan y Datblygiad ddim cysylltiad uniongyrchol â rheoli unrhyw safle Natura 2000, ac nid yw'n angenrheidiol at reoli safle o'r fath ychwaith. Felly, o dan Reoliad 63 o Reoliadau Cadw Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ("y Rheoliadau Cynefinoedd"), mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol (fel yr Awdurdod Cymwys) ystyried a fyddai'r Datblygiad yn debygol, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill, o gael effaith arwyddocaol ar safle Natura 2000. Os na ellir diystyru effeithiau arwyddocaol tebygol, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal Asesiad Priodol ("AA") gan fynd i'r afael â'r goblygiadau ar gyfer safle Natura 2000 o gofio'i amcanion cadwraeth. Gelwir y broses hon gyda'i gilydd yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ("HRA"). Yng ngoleuni unrhyw asesiad o'r fath, ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu oni chanfuwyd na fydd y datblygiad, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle o'r fath oni bai nad oes dewisiadau eraill ymarferol neu oni bai bod rhesymau sy'n ymwneud â'r budd cyhoeddus yn drech na phopeth arall.

6.12 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi nad yw'r Datblygiad wedi'i leoli o fewn unrhyw safleoedd Natura 2000 neu'n gyfagos iddynt. Er hynny, nododd yr Archwiliad y potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000 ymhellach i ffwrdd. Mae'r ExA yn cofnodi bod y Ceisydd wedi defnyddio radiws 10km o'r Datblygiad i nodi safleoedd Natura 2000 yr effeithid arnynt drwy newidiadau i ansawdd dŵr o wastraff budr/dŵr gwastraff a gynhyrchid gan y Datblygiad, newidiadau mewn ansawdd aer o allyriadau gweithredol i'r awyr o NOx, dyddodi nitrogen a/neu asideiddio; a newidiadau yn ansawdd aer o'r cynnydd mewn allyriadau o drafnidiaeth. Oherwydd y terfyn 10km, nid aethpwyd ymlaen i asesu unrhyw safleoedd trawsffiniol. Mae defnyddio radiws 10km fel hyn yn dilyn y canllawiau ar allyriadau aer a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ("DEFRA") ac Asiantaeth yr Amgylchedd ("EA"). Nodwyd pum safle o fewn y radiws hwn:

- Ardal Cadwraeth Arbennig (“ACA”) Cors Crymlyn;
- Safle Ramsar Cors Crymlyn;
- ACA Bae Caerfyrddin a’i Aberoedd;
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (“AGA”) Cilfach Tywyn; a
- Safle Ramsar Cilfach Tywyn;

6.13 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried amcanion cadwraeth pob un o'r safleoedd uchod o'u cymharu ag asesiad y Ceisydd o bob un o'r llwybrau effaith posibl:

- **Ansawdd dŵr:** o gofio swm bach y gwastraff budr/dŵr gwastraff wedi'i drin sy'n debygol o gael ei gynhyrchu gan y Datblygiad a'r safleoedd Natura 2000 sydd â chysylltiad hydrolegol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y rhagwelir y bydd unrhyw newidiadau yn ansawdd dŵr y safleoedd Natura 2000 hynny yn ddibwys ac yn anfesuradwy gyda chynlluniau neu brosiectau eraill.
- **Allyriadau o ffynonellau penodol yn ystod y gweithredu:** Rhagwelir y bydd yr allyriadau NOx islaw'r lefelau arwyddocaol a amlinellir yn y canllawiau ar allyriadau aer uchod a gynhyrchwyd gan DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd. O ran dyddodi nitrogen ac asideiddio, nodir bod y lefelau arwyddocâd ar un safle – ACA Cors Crymlyn – eisoes yn uwch na'r lefel arwyddocâd perthnasol. Er hynny, ni ddisgwylir i'r cynefinoedd sy'n bresennol ar y safle hwn ymateb i'r cynnydd bach yn y dyddodiad nitrogen o'r Datblygiad. Yn achos pob safle arall, rhagwelir y bydd y dyddodi nitrogen a'r asideiddio yn is na'r lefelau a amlinellir yn y canllawiau allyriadau aer ac ni nodwyd unrhyw allyriadau o ffynonellau penodol eraill a allai weithredu ar y cyd â'r Datblygiad.
- **Allyriadau yn gysylltiedig â thrafnidiaeth:** Rhagwelir mai newid bach am gyfnod byr yn unig a welir ar bob ffordd o fewn 200 metr i'r safleoedd Natura 2000 a restrir uchod o ran llifoedd cerbydau o ganlyniad i adeiladu a gweithredu'r Datblygiad. Does dim cynlluniau na phrosiectau eraill sydd â'r potensial i gyfrannu at grynodiadau llygryddion lleol fel hyn wedi'u lleoli o fewn 200 metr i unrhyw un o'r safleoedd Natura 2000 a restrwyd uchod.

6.14 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod nifer o fesurau lliniaru wedi'u cynnig gan y Ceisydd i osgoi effeithiau amgylcheddol lleol. Mae'n cytuno â chynnwys y mesurau hyn, ond er eu bod yn cryfhau'r

casgliadau uchod, nid ydynt wedi'u bwriadu nac yn angenrheidiol i osgoi effeithiau sylweddol ar safleoedd Natura 2000.

6.15 Ar sail yr uchod, daeth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r casgliad nad yw'r Datblygiad, ar ei ben ei hun nac mewn cyfuniad, yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safle Natura 2000 ac nad oes angen AA. Mae'r casgliad hwn yn gyson â'r cyngor a roddwyd yn ystod yr Archwiliad gan y corff cadwraeth natur statudol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r argymhelliad a wnaed gan yr ExA.

Bioamrywiaeth

6.16 Mae Adroddiad yr ExA [4.16.21] yn dweud bod Pennod 8 o'r ES yn cynnwys yr asesiad bioamrywiaeth, a'i fod wedi nodi safleoedd ecolegol, rhywogaethau a chynefinoedd neu ecosystemau dynodedig a warchodir ac y gallai'r Datblygiad effeithio arnynt ac yn asesu'r tebygolrwydd y ceid effeithiau arwyddocaol. Mae'r Bennod yn ystyried effeithiau posibl o ran ansawdd aer, sŵn, dŵr, tirwedd a golau ar dderbynyddion ecolegol. Cynhaliwyd arolygon ecolegol ar y canlynol:

- Cynefinoedd;
- Madfallod dŵr cribog;
- Ymlusgiaid;
- Dyfrgwn a llygod dŵr;
- Pathewod;
- Gwrychoedd;
- Moch daear; a
- Man clwydo ystlumod (asesiad ac arolwg o'r gweithgarwch).

6.8 Mae'r ExA yn fodlon bod pryderon Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Abertawe ynglŷn ag effeithiau ar fioamrywiaeth wedi'u trafod yn ddigonol gan y Ceisydd drwy gyfrwng Gofynion 3, 7, 8, 9 a 10 yn y Gorchymyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

Prynu Gorfodol

6.17 Y dibenion y mae'r Ceisydd yn ceisio pwerau prynu gorfodol a phwerau meddiannu dros dro ar eu cyfer yw ategu tri phrif amcan datblygu, sef:

- Ddatblygu a defnyddio gorsaf gynhyrchu yn y lle cyntaf;
- Ffurfio coridor tir ar gyfer alinio cysylltiad trydanol; a
- Ffurfio coridor tir ar gyfer alinio cysylltiad nwy, rhwng yr orsaf gynhyrchu a'r rhwydwaith trawsyrru nwy presennol sy'n angenrheidiol i alluogi nwy i gael ei gyflenwi i'r orsaf gynhyrchu.

6.18 Mae'r Ceisydd wedi cadarnhau nad oes dim o dir y Goron wedi'i gynnwys yn y pwerau prynu gorfodol arfaethedig na'r pwerau meddiant dros dro y gofynnir amdanynt yn y Gorchymyn, ac nad oes dim tir categori arbennig yn perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, man agored, tir comin na rhandir gardd gae.

6.19 Mae Deddf Cynllunio 2008, ynghyd â'r gyfraith achosion a'r canllawiau perthynol, yn nodi mai dim ond os bodlonir amodau penodol y gellir caniatáu prynu gorfodol. Yr amodau perthnasol yw:

- bod angen y tir ar gyfer y datblygiad y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef, neu yn angenrheidiol i hwyluso'r datblygiad neu'n atodol i'r datblygiad. Ni ddylai'r tir y mae angen ei gymryd fod yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol angenrheidiol a dylai fod yn gymesur (mae Adran 122(2) o Ddeddf Cynllunio 2008 yn cyfeirio at hyn);
- bod rhaid bod achos llethol er budd y cyhoedd (mae adran 122(3) o Ddeddf 2008 yn cyfeirio at hyn);
- bod rhaid bod angen i'r prosiect gael ei gyflawni;
- bod rhaid cael cysondeb a chydlyniad yn y broses o wneud penderfyniadau;
- bod pob dewis arall rhesymol yn lle prynu gorfodol wedi'i ystyried;
- bod gan y Ceisydd syniad clir o sut mae'n bwriadu defnyddio'r tir a'i fod yn gallu dangos bod arian ar gael i dalu am y prynu; a
- bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod y dibenion a nodwyd ar gyfer y prynu yn ddilys ac yn ddigonol i gyfiawnhau'r ymyrraeth anochel â hawliau dynol y rhai yr effeithir arnynt.

6.20 Yn ystod yr Archwiliad roedd gan saith parti yr effeithid arnynt wrthwynebiadau o hyd i bwerau prynu gorfodol neu bwerau meddiannu dros dro ond fel y nodwyd yn 5.1 uchod, tynnwyd pedwar yn ôl, gan adael y gwrthwynebiadau a oedd heb eu datrys gan Mr Michael Edwards, Mr Wynne Watkins a Redisplay Limited. Mae'r tir sydd i'w brynu'n orfodol neu sydd i'w feddiannu dros dro yn gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r ffordd fynediad a'r aliniad ar gyfer y cysylltiad trydan:

- Gwrthwynebodd **Mr Michael Edwards** mewn perthynas â thir ar Fferm Maes-Eglwys ar gyfer y ffordd fynediad ac aliniad y cysylltiad trydan (Rhydd-ddaliad: plot 12, Parhaol: 13, 14, 15 a 17; Dros dro: 13A, 13B, 17A a 17B). Roedd yr ExA yn fodlon, o ran tir Mr Edwards, fod lled y ffordd fynediad wedi'i leihau i 15m a'i fod

wedi'i chydleoli gyda'r cysylltiad trydan i leihau'r tir a gymerir a bod lleoliad y ffordd fynediad yn golygu na fydd dim effaith arwyddocaol ar waith y fferm. Mae'n fodlon nad oes modd rhesymol mynd i'r afael â phryderon Mr Edwards drwy leoli'r ffordd fynediad ar dir arall ac, ar y cyfan, mae'n fodlon bod y Ceisydd wedi dangos yr achos o blaid prynu gorfodol a meddiant dros dro yn y lleoliad hwn.

- Gwrthwynebodd **Mr Wynne Watkins** mewn perthynas â thir rhwng safle'r cywasgydd nwy a'r B4489 ar gyfer y ffordd fynediad ac aliniad y cysylltiad trydan (Parhaol: 18, 21, 22, 23 a 24; Dros dro: 18A, 18B). Roedd yr ExA yn fodlon, o ran tir Mr Watkins, fod lled y ffordd fynediad wedi'i leihau i 15m a'i bod wedi'i chydleoli gyda'r cysylltiad trydan i leihau'r tir a gymerir. Mae lleoliad y ffordd fynediad yn golygu na fydd dim effaith arwyddocaol ar waith y fferm. Mae'n fodlon bod y Ceisydd wedi cynnal gwerthusiad llawn a theg o'r opsiynau lleoli ac nad oes modd mynd i'r afael yn rhesymol â phryderon Mr Watkins drwy leoli'r ffordd fynediad ar dir arall. Ar y cyfan, mae'n fodlon bod y Ceisydd wedi dangos yr achos o blaid prynu gorfodol a meddiant dros dro yn y lleoliad hwn.
- Gwrthwynebodd **Redisplay Limited** mewn perthynas â phrynu hawliau'n orfodol a meddiant dros dro ar dir rhwng safle'r cywasgydd nwy a'r B4489 ar gyfer y ffordd fynediad ac aliniad y cysylltiad trydan (Parhaol: 18, 21, 22, 23 a 24; Dros dro: 18A, a 18B). Fel yn achos Mr Watkins uchod, mae'r ExA yn fodlon o ran tir Redisplay Limited nad yw lleoliad y ffordd fynediad yn cael dim effaith arwyddocaol ar waith Redisplay ac mae'n fodlon bod y Ceisydd wedi dangos yr achos o blaid prynu gorfodol a meddiant dros dro yn y lleoliad hwn

6.21 Mae'r ExA wedi archwilio argaeledd a digonolrwydd yr arian ar gyfer prynu gorfodol a digolledu am feddiant dros dro ac mae wedi'i fodloni gan y dystiolaeth yn y Datganiad Ariannol a gyflwynwyd [APP-012] fod gan y Ceisydd ddigon o fynediad at arian i dalu unrhyw rwymedigaethau digolledu tebygol. Mae'r ExA yn fodlon bod Erthygl 34 yn y Gorchymyn yn darparu dull cadarn o warantu'r cyllid angenrheidiol.

6.22 I gloi, mae'r ExA yn fodlon bod yna gyfiawnhad dros y pwerau prynu gorfodol y mae'r Ceisydd yn gofyn amdanynt ac y dylid caniatáu hynny am fod achos llethol er budd y cyhoedd i'r tir a'r buddiannau gael eu prynu'n orfodol ar ôl mantoli'r budd cyhoeddus yn erbyn y golled

breifat. Er nad yw pwerau meddiant dros dro yn dod o dan yr un profion, mae'n nodi bod y rhain yn cael eu ceisio ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu a'u bod yn ffurfio rhan integredig o'r pecyn tir ar gyfer y datblygiad. Mae'n fodlon y byddai angen y buddiannau cyfreithiol yn yr holl blotiau o dir a gynhwysir yn y Llyfr Cyfeirio ac a ddangosir ar y Planiau Tir ar gyfer y prif ddatblygiad ac ar gyfer y tir y mae ei angen i hwyluso'r ddarpariaeth honno. Mae'r ExA yn fodlon bod y tir a geisir ar gyfer yr orsaf gynhyrchu yn dir sy'n ofynnol at ddibenion adran 122(2)(a) o Ddeddf 2008 a'i fod yn bodloni'r prawf a nodir yn yr adran honno, a bod y tir a geisir ar gyfer aliniad y ffordd fynediad yn dir y mae ei angen at ddibenion adran 122(2)(b) o Ddeddf 2008 a'i fod, yn ddarostyngedig i'w resymu ar blotiau unigol a chan gymryd y rhesymu hwnnw i ystyriaeth, yn bodloni'r prawf a nodir yn yr adran honno.

6.23 Mae'r ExA yn fodlon bod cynnwys y pwerau hyn yn briodol a bod y dull hwn o weithredu yn gyson â Gorchmynion blaenorol eraill ar gyfer caniatâd datblygu yng Nghymru. Mae wedi ystyried yr ymyrraeth arfaethedig â hawliau unigolion yn yr holl bwerau prynu gorfodol a'r pwerau meddiannu dros dro a geisir gan y Ceisydd ac mae'n fodlon y byddai'r rhain yn gyfreithlon, yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn gyfiawn er budd y cyhoedd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA.

Deddf Newid Hinsawdd 2008

6.24 Fel y nodwyd uchod, ar ôl i'r Archwiliad gau, diwygiwyd Deddf Newid Hinsawdd 2008 drwy Offeryn Statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 80% o leiaf i darged sero net o 100% erbyn 2050. Bydd y datblygiad yn cyfrannu at allyriadau'r Deyrnas Unedig gan nad yw wedi ei ffitio â chyfarpar dal carbon. Er hynny, mae'r ExA o'r farn y bydd y Drwydded Amgylcheddol yn darparu'r mecanweithiau rheoli gweithredol mewn perthynas ag unrhyw allyriadau. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon mai'r Drwydded Amgylcheddol yn hytrach na'r Gorchymyn yw'r mecanwaith priodol i wneud hyn, ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r allyriadau hynny gael eu lleihau os bydd deddfwriaeth newydd yn cael ei gosod fel y cadarnhawyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Os ceir newidiadau yn y fframwaith deddfwriaethol, a fydd yn arwain at leihad yn yr allyriadau a ganiateir, yna mae'r Drwydded Amgylcheddol yn fodd i weithredu'r newidiadau hynny.

Cydbwysedd Cynllunio

6.25 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr ExA wedi ystyried y cydbwysedd cynllunio wrth ddod i'w gasgliad ynghylch a ddylid caniatáu'r Cais [ER 6.2.1.-6.2.2]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi

ymhellach, fod yr ExA o'r farn nad oes effeithiau anffafriol digon pwysig i ddadlau yn erbyn gwneud y Gorchymyn ac y byddai'r datblygiad yn arwain at niwed llai nag arwyddocaol i fuddiannau, a bod y rhain yn eu tro wedi'u lliniaru fel sy'n ofynnol o dan bolisi'r NPS. Daeth yr ExA i'r casgliad bod y niwed cyfyngedig a wneir yn llai na'r budd sylweddol drwy ddarparu ynni i ddiwallu'r angen i gynhyrchu nwy fel rhan o'r gyfres o ddulliau cynhyrchu y mae eu hangen er mwyn pontio i Gymru carbon isel – fel y nodir yn EN-1 ac ym mholisi Llywodraeth Cymru, a thrwy fuddion eraill y Cais a grynhoir yn adroddiad yr ExA. Daeth i'r casgliad hefyd nad yw polisi'r NPS na pholisi Llywodraeth Cymru yn cael eu torri'n gyffredinol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA o ran cydbwysedd cynllunio'r Datblygiad.

7. Ystyriaethau Cyffredinol

Deddf Hawliau Dynol 1998

7.1 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y posibilrwydd o dorri hawliau dynol drwy gyfrwng y Datblygiad, mewn perthynas â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan gynnwys unrhyw dorri ar y Confensiwn o ganlyniad i gynnwys pwerau prynu gorfodol yn y Gorchymyn. Mae hi o'r farn bod unrhyw ymyrraeth â hawliau dynol sy'n deillio o weithredu'r Datblygiad yn gymesur ac yn gyfreithlon, ac yn taro cydbwysedd teg rhwng hawliau'r unigolyn a budd y cyhoedd, ac y byddai iawndal ar gael mewn perthynas ag unrhyw golled fesuradwy. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliad yr ExA nad oes ymyrraeth anghymesur nac ymyrraeth heb gyfiawnhad â hawliau dynol a fyddai'n gwrthdaro â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998. Nid oes rheswm ganddi dros gredu, felly, y byddai caniatáu'r Gorchymyn yn arwain at unrhyw ymyrraeth na ellir ei gyfiawnhau, a fyddai'n gwrthdaro â darpariaethau Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Deddf Cydraddoldeb 2010

7.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys "dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol" ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw priodol wrth arfer eu swyddogaethau i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt; a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt a hynny mewn perthynas â'r "nodweddion gwarchoddedig" a ganlyn: oedran; rhyw

aillbennu rhywedd; anabledd; priodasau a phartneriaethau sifil;⁴ beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd a chred; a hil. Mae'r mater hwn wedi'i ystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd wedi dod i'r casgliad nad oedd tystiolaeth o unrhyw niwed, diffyg parch at gydraddoldebau, na diystyru materion cydraddoldeb.

Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006

7.3 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn unol â'r ddyletswydd yn Adran 40(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, roi sylw i ddiben diogelu bioamrywiaeth, ac yn benodol i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol 1992, wrth roi caniatâd datblygu.

7.4 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod adroddiad yr ExA, ynghyd â'r dadansoddiad o'r effaith amgylcheddol, yn ystyried bioamrywiaeth yn ddigonol i arwain yr Ysgrifennydd Gwladol yn hyn o beth. Wrth ddod i'r penderfyniad i roi caniatâd i'r Datblygiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sylw dyledus i gadw bioamrywiaeth.

8. Casgliadau a phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

8.1 Am y rhesymau a roddir yn y llythyr hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod achos cymhellol dros roi caniatâd datblygu. O gofio'r angen cenedlaethol am ddatblygiadau o'r fath, fel y nodir yn yr NPSs perthnasol y cyfeirir atynt uchod, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod effeithiau niweidiol posibl y Datblygiad, fel y cânt eu lliniaru gan delerau arfaethedig y Gorchymyn, yn drech na hyn.

8.2 Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu derbyn argymhelliad yr ExA i wneud y Gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu [ER 8.2], cynnwys mân newidiadau a wnaed gan ei swyddogion a chaniatáu prynu'n orfodol y tir rhydd-ddaliadol a meddiant dros dro ar dir a geisir gan y Ceisydd fel yr argymhellir gan yr ExA. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau bod sylw wedi'i roi i Adroddiad yr ExA, yr LIR a gyflwynwyd gan Gyngor Abertawe a phob mater arall y bernir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, fel sy'n ofynnol o dan Adran 104 (penderfyniadau mewn achosion pan fo'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn effeithiol) o Ddeddf 2008. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau at ddibenion rheoliad 3(2) o Reoliadau 2009 fod asesiad o'r effaith amgylcheddol wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Cais a bod yr wybodaeth

⁴ Mewn perthynas â'r amcan statudol cyntaf yn unig (dileu gwahaniaethu anghyfreithlon etc.).

amgylcheddol, fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau, wedi'i hystyried.

9. Addasiadau i'r Gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol

9.1 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud y newidiadau a ganlyn yn y Gorchymyn a argymhellwyd gan yr ExA:

(i) Rhan 3 - Strydoedd: mae darpariaeth ynghylch digolledu wedi'i mewnosod yn Erthygl 11 (gwahardd dros dro neu gyfyngu ar ddefnyddio strydoedd). Rhagdybir bod hyn wedi'i hepgor o'r Gorchymyn drwy gamgymeriad gan fod y ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn y cymalau enghreifftiol a chan fod Memorandwm Esboniadol y Ceisydd yn awgrymu bod yna fwriad i'w chynnwys;

(ii) Rhan 4 – Pwerau atodol: mae'r ddarpariaeth ynglŷn â gweddillion dynol a mynwentydd (erthygl 18 cynt) wedi'i dileu. Does dim mynwentydd hysbys o fewn terfynau'r Gorchymyn. Dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw weddillion archaeolegol yn y cynllun ymchwilio archaeolegol ysgrifenedig.

(iii) Rhan 5 – Pwerau prynu: mae'r ddarpariaeth ynghylch cyllid, erthygl 33 (erthygl 34 cynt), wedi'i diwygio i gynnwys erthygl 20 (hawl statudol i ddiystyru hawddfrentiau) yn y darpariaethau a restrir ym mharagraff (2). Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau, pan fo'r Ceisydd yn darparu gwarant neu sicrwydd ynghylch cyllid, fod y warant neu'r sicrwydd yn cynnwys pob math o iawndal sy'n deillio o'r prynu gorfodol;

(iv) Rhan 7 – Amrywiol a Chyffredinol: mae erthygl 42 (43 cynt) (cymrodeddu) wedi'i diwygio i ddileu paragraff (2). Does dim tystiolaeth bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi methu'n flaenorol â phenodi cymrodeddwr ar gais. Mae dileu hyn yn gyson â darpariaethau tebyg sydd wedi'u cynnwys mewn Gorchymynion a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ddiweddar mewn cysylltiad â gorsafoedd cynhyrchu tebyg eraill; a

(v) Atodlen 2 – Gofynion: mae paragraffau 10 (rhywogaethau ymledol a gwaith adfer) a 13 (archaeoleg) wedi'u diwygio oherwydd anghysondebau rhwng y Gorchymyn a'r Memorandwm Esboniadol.

9.2 Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud amryw o newidiadau i'r Gorchymyn nad ydynt yn newid ei effaith

yn sylweddol, gan gynnwys newidiadau i gydymffurfio â'r arferion presennol ynglŷn ag offerynnau statudol (er enghraifft, moderneiddio iaith), newidiadau er lles eglurder a chysondeb a newidiadau er mwyn sicrhau bod y Gorchymyn yn creu'r effaith a fwriadwyd.

10. Herio'r penderfyniad

10.1 Mae'r amgylchiadau lle y gellir herio penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'u nodi yn y nodyn a atodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

11. Cyhoeddusrwydd i'r penderfyniad

11.1 Mae cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cais hwn fel sy'n ofynnol o dan Adran 116 o Ddeddf 2008 a rheoliad 23 o Reoliadau 2009.

Yn gywir

GARETH LEIGH
Pennaeth Cynllunio Seilwaith Ynni

**HERIAU CYFREITHIOL YNGLŷN Â CHEISIADAU AM ORCHMYNION
CANIATÂD DATBLYGU**

O dan adran 118 o Ddeddf Cynllunio 2008, dim ond drwy gais am adolygiad barnwrol y gellir herio Gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu, neu unrhyw beth a wnaed, neu a hepgorwyd, gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chais am Orchymyn o'r fath. Rhaid i gais am adolygiad barnwrol gael ei wneud i'r Llys Cynllunio yn ystod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y cyhoeddir y Gorchymyn. Mae dogfennau'r penderfyniad yn cael eu cyhoeddi ar ddyddiad y llythyr hwn ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn y cyfeiriad canlynol:

Fel canllawiau yn unig y darperir y nodiadau hyn. Cynghorir person sy'n credu y gallai fod sail dros herio'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn y cyfeirir ato yn y llythyr hwn i geisio cyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau. Os oes arnoch angen cyngor ar y broses o wneud unrhyw her dylech gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol, Strand, Llundain, WC2A 2LL (0207 947 6655)